

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
1 Rhagfyr 2016 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Geraint R. Jones, Emyr Williams, Gwyneth Thomas
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Edd Huws, Ifor Dylan Williams, Sioned Williams, Ian Jones

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Clerc ddiddordeb yn Eitem 8.2 a gadawodd yr ystafell tra fod y mater yn cael ei drafod.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd, yn ddarostyngedig i un cywiriad bach, drwy ddileu'r gair "Llanrug" o ail baragraff 4.3 o'r cofnodion.

Cynnig: Geraint R. Jones

Eilio: Dafydd Iwan

f

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Coed Llwyn Beuno

Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru y byddant yn torri'r coed erbyn canol Tachwedd. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith wedi ei wneud, ac mae'r Clerc yn parhau i holi Cartrefi Cymunedol Gwynedd am ddiweddariad.

4.2 Signal Ffôn Symudol ym Montnewydd

Ysgrifennodd y Clerc at Vodafone/Telefonica yn cadarnhau fod y Cyngor yn gefnogol i'r bwriad i leoli mast ffôn symudol yno.

Bydd Vodafone/Telefonica yn gwneud cais cynllunio'n fuan, ond mae'n debygol fod Cyngor Gwynedd yn mynd i ofyn am newid bychan i leoliad y mast, fel ei fod yn agosach i'r ganolfan ailgylchu.

Gan fod bwriad i ddarparu gwasanaeth di-wifr ar faes chwarae Ysgol Bontnewydd, bydd Pwyllgor Y Ganolfan yn gweld os oes modd defnyddio'r signal di-wifr yma yn Y Ganolfan.

Bu trafodaeth ar y diffyg signal ffôn symudol yn Llanfaglan hefyd. Yn ogystal, does dim bandeang cyflym ar gael yn Llanfaglan, er gwaetha'r ffaith fod y bibell Cyflymu Cymru sy'n rhedeg o Gaernarfon i Bwllheli gerllaw. Roedd y bibell hon fod i alluogi bandeang cyflym yng Ngwynedd.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at BT Openreach a Llywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ar y sefyllfa.

Bydd y Clerc yn ysgrifennu at Sian Gwenllian A.C. ar y mater hefyd, ac yn gofyn os y gall Geraint Strello, Rheolwr Rhanbarthol BT ddod i gyfarfod Chwefror er mwyn ateb cwestiynau ac egluro'r sefyllfa ymhellach.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Tachwedd 2016

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18

Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau Postio £1.10

5.3 Balans yn y Banc 1 Tachwedd 2016 - £10,864.02

6. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill

C16/1458/19/HT Gosod mast telathrebu 15m ger tir Y Bryn, Bontnewydd, LL55 2UN.
Dim gwrthwynebiad

7. GOHEBIAETH

- Pwyllgor Arfon/Dwyfor Un Llais Cymru nos Fercher 14 Rhagfyr
- Hunaniaith 16 Chwefror 2017
- Newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth.

8. MATERION ERAILL

8.1 Biniau Halen

Ysgrifennodd Cyngor Gwynedd i ddweud fod costau llenwi'r biniau halen ar ddechrau'r flwyddyn yn is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Y gost yn awr fydd:

Llenwi pob bin cyn y gaeaf: £40 y bin o haf 2017

Ail-lenwi bin ar gais y gymuned yn y gaeaf : £60 y bin (1Hydref – 30 Ebrill)

8.2 Cynllun Pensiwn Clerc

Mae'n ofynnol bellach i bob cyflogwr ystyried cynnig cynllun pensiwn l'w cyflogai. Rhaid i Gyngor Cymuned Y Bontnewydd **ystyried** felly dalu pensiwn i'r Clerc ai peidio erbyn diwedd chwarter cyntaf 2017.

Gofynnwyd i'r Clerc wneud gwaith ymchwil pellach erbyn cyfarfod Chwefror, a darparu manylion o'r union swm y byddai'n rhaid i'r Gyngor Cymuned ei dalu pe byddent yn penderfynu darparu pensiwn i'r Clerc.

8.3 Arwydd Rhes Magdalen – Llanfglan

Mae arwydd Rhes Magdalen wedi torri a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Gyngor Gwynedd er mwyn gosod arwydd newydd.

8.4 Parth Cyflymder 20mya Bontnewydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Gorchymyn yn gwneud y parth 20mya ar yr A487 ym Bontnewydd yn barhaol. Bydd cyflymder o 20 mya yn weithredol ar ddechrau a diwedd diwrnod ysgol.

8.5 Costau Etholiadau Cyngor Cymuned 2017

Cafwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn nodi'r costau tebygol y byddai'n rhaid i Gyngorau Cymuned eu hysgwyddo pe na fyddai etholiad Cyngor Sir, ac etholiad Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar wahan. Y gost tebygol fyddai £1,250 hyd at 1,000 o etholwyr a £1,750 hyd at 2,000 o etholwyr. Er bod y tebygrwydd o orfod cynnal etholiad Cyngor Cymuned yn isel, cytunwyd fod angen cymryd y gost ychwanegol yma i ystyriaeth wrth benderfynu ar y Praesept ym mis Chwefror.

8.6 BDO Archwiliwyr Allanol

Bu trafodaeth yng nghyfarfod Cangen Clercod lleol Arfon, am apwyntiad BDO fel archwiliwr allanol a'r problemau sydd wedi codi. Paratowyd llythyr drafft gan y Cangen ac awgrymwyd fod copi yn cael ei ddanfôn at yr archwiliwr allanol a Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi'r pryderon.

8.7 Ffordd osgoi Bontnewydd – Adroddiad datblygu Cynaliadwy

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Adroddiad Datblygu Cynaliadwy ar y ffordd osgoi. Gellir lawrlwytho copi o wefan Llywodraeth Cymru.

8.8 Parcio Lôn Groes

Mae'r problemau parcio yn parhau yn Lôn Groes. Bu cwynion fod rhai preswylwyr yn ystyried y llefydd parcio fel rhai personol ac yn gwarafun i eraill eu defnyddio. Cafwyd adroddiad fod un person a barciodd gar yno dros nos ddifrod bwriadol sylweddol i'r car.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn nodi'r broblem, gan ofyn iddynt ysgrifennu at drigolion Lôn Groes yn nodi nad oes gan neb hawl dros lefydd parcio penodol, ac yn gofyn am ddatrysiad i'r sefyllfa.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

2 Chwefror 2017 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd.

